# CEFNOGI GWAITH Y MENTRAU IAITH

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019-20




## MENTRAU IAITH CYMRU

Pwrpas Mentrau Iaith Cymru yw cefnogi gwaith y Mentrau Iaith i greu cyfleoedd i gymunedau Cymraeg ffynnu ym mhob cwr o Gymru.

Sefydlwyd Mentrau Iaith Cymru (MIC) yn 1999. gan fod y Mentrau Iaith lleol wedi adnabod angen i gyfarfod yn rheolaidd, rhannu profiadau a gwybodaeth a rhoi cyfleoedd i'r Mentrau Iaith gydweithio â'i gilydd.

Fe ddatblygodd gwaith MIC yn gyson gan dyfu o dîm o un i dîm o bedwar rhwng 2004 a 2015. Rhwng 2015 a 2017 fe gydlynodd y tîm o bedwar y lefel uchaf o wasanaeth a gweithgareddau i gefnogi'r Mentrau Iaith ym mhob agwedd o'u gwaith yn effeithiol. Er i'r tîm leihau i un yn 2017 parhaodd safon y gefnogaeth a datblygwyd sawl prosiect uchelgeisiol a chroesawyd dau Swyddog Datblygu newydd i Fentrau Iaith Cymru. Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018 ymunodd dwy aelod bwysig arall i'r tim fel Cydlynydd Cymraeg Byd Busnes a Swyddog Gweinyddol.

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD

"Bu 2019-20 yn flwyddyn o dwf a dysgu i Fentrau Iaith Cymru, cymerwyd y cyfrifoldeb o weinyddu grantiau'r papurau bro gan Lywodraeth Cymru a gweinyddu'r grantiau gwyliau cymunedol newydd. Llwyddodd y tîm i ymgymryd â'r gwaith newydd mewn dull proffesiynol ac fel pwyllgor rydym yn hynod o falch o ymroddiad ein staff. Cafwyd noson Dathlu Mentrau Iaith am y tro cyntaf, a brofodd yn llwyddiannus tu hwnt. Mae prosiect Cymraeg Byd Busnes yn dod yn rhan o brosiect newydd Helo Blod y Llywodraeth o Fawrth 2020, mae MIC yn rheoli'r prosiect mewn dull effeithiol, a thrwy hynny'n cefnogi'r Mentrau Iaith ledled Cymru.

Yn 2020-21 byddwn yn blaenoriaethu cael hyd i ffynonellau newydd o gyllid, tu hwnt i is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, tra'n parhau i fod yn llais cryf dros y Mentrau ac yn gweithio'n barhaus i geisio cael cynnydd yn y cyllid ddaw i'r Mentrau gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i osod pwyslais ar ddatblygiad proffesiynol ein staff yn y flwyddyn nesaf, mae tri aelod o staff yn dilyn cwrs Lefel 2 ILM drwy Chware Teg ar hyn o bryd, a'r Arweinydd Tîm yn cychwyn cwrs ILM lefel 5 ym mis Ebrill 2020. Gyda datblygiadau mawr yn y byd o'n cwmpas yn 2020, bydd MIC yn parhau i gefnogi'r Mentrau Iaith lleol i allu cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau."




Lowri Jones

L. C. Jones

# Y MENTRAU IAITH

Rhwydwaith o grwpiau cymunedol yw'r Mentrau Iaith sy'n gweithio tuag at gynyddu a chryfhau'r defnydd o Gymraeg yn ein cymunedau. Mae 22 Menter Iaith wahanol sy'n gweithio gyda dros 190,000 o bobl ledled Cymru yn ein hardaloedd lleol. Mae pob un yn wahanol, yn gwasanaethu ar gyfer anghenion penodol eu hardaloedd.

Gyda dros 12,000 o weithgareddau'r flwyddyn - o wyliau neu glybiau gofal plant i sesiynau ymwybyddiaeth iaith - mae'r Mentrau Iaith yn cefnogi pobl o bob oed ac ym mhob cam o fywyd. Gan gyfeirio at wasanaethau Cymraeg defnyddiol - mae'ch Menter Iaith yn siop-un-stop ar gyfer yr iaith, yn ein hannog i fyw, dysgu a mwynhau yn Gymraeg.

Mae'r Mentrau Iaith i bawb.

# ADEILADWAITH MENTRAU IAITH CYMRU

## Bwrdd Rheoli (Cyfarfod Cenedlaethol)

Cynrychiolaeth o bob Menter Iaith sy'n aelodau o MIC (pob Menter yn cael anfon dau gynrychiolydd ac enwebu un ohonynt i fod yn un o Gyfarwyddwyr MIC, y Prif Swyddog fel arfer). Gwahoddir pob Prif Swyddog i'r cyfarfodydd a chroesewir cynrychiolaeth gan aelod o fwrdd rheoli pob Menter hefyd. Mae'r Pwyllgor Rheoli'n ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd a Thrysorydd sy'n gweithredu am ddwy flynedd i arwain y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol.

## Pwyllgor Gweithredol

Gwneud y gwaith o reoli MIC o ddydd i ddydd, cynrychioli MIC mewn digwyddiadau cenedlaethol, yn cyfweld ac apwyntio staff newydd mae'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Trysorydd a 3 aelod yn cael eu hethol i'r Pwyllgor Gweithredol gan y rhanbarthau (2 o bob rhanbarth). Mae'r Bwrdd Rheoli yn ethol y swyddogion o'r 6 yma bob dwy flynedd, sef yr un swyddogion â'r Bwrdd Rheoli. Bydd yr Is-gadeirydd yn camu i sedd y Cadeirydd wedi dwy flynedd.

## Pwyllgorau Rhanbarthol

Cyfarfodydd rhanbarthol (Gogledd, De Orllewin a'r De Ddwyrain) yn creu cyfle i drafod pwyntiau rhanbarthol a chenedlaethol fydd yn cael eu bwydo nôl i'r Pwyllgor Gweithredol wedyn. Mae'r pwyllgorau rhanbarthol yn gwahodd y Prif Swyddog o bob Menter Iaith yn y rhanbarth gan ethol Cadeirydd.

## Staff MIC

Gweithredu ar benderfyniadau'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol, cynnig cefnogaeth i rwydwaith y Mentrau Iaith.



Iwan Hywel
Arweinydd Tîm



Heledd ap Gwynfor
Cydlynydd Partneriaethau



Marged Rhys
Cydlynydd Marchnata a Chyfathrebu



Daniela Schlick
Cydlynydd Prosiect Cymraeg Byd Busnes



Cathryn Griffith
Swyddog Datblygu



Glesni Williams
Swyddog Gweinyddol

# EIN GWAITH YN 2019-20

## CYFARFODYDD A CHYNADLEDDAU



Yn ystod 2019-20 cynhaliwyd 4 cyfarfod cenedlaethol i Brif Swyddogion, 5 cyfarfod i Swyddogion Maes a 6 cyfarfod rhanbarth. Cynhaliwyd cyfarfodydd i gyfarwyddwyr y De Orllewin a'r De Ddwyrain ond gorfu gohurio cyfarfod y Gogledd oherwydd pryder Covid-19.

Cyfle'r De Orllewin oedd hi yn 2020 i groesawu cynhadledd MIC. Cafwyd diwrnod llawn cyflwyniadau gwybodus (Rheoli Llinell, Trosglwyddo Iaith, Fforymau Sirol a mwy) cyn trafodaethau ar ddatblygu'r rhwydwaith mewn diwrnod o rwydweithio a chydweithio gyda thros 400 mlynedd o brofiad yn yr un ystafell.

## HYFFORDDIANT A CHODI ANSAWDD

Parhaodd MIC i gefnogi'r Mentrau Iaith a'u pwyllgorau trwy broses Trusted Charity Mark (PQASSO gynt). Mae wedi bod yn bleser derbyn cefnogaeth i'r rhwydwaith gan gwmni Darwin Gray er mwyn cysoni a diweddaru systemau Adnoddau Dynol yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd cefnogaeth i fentrau unigol hefyd gan MIC i ddatblygu gyda'u marchnata mewn cyfarfodydd ac ar ffurf tiwtorialau fideo byr 'Sut i...' ar ein sianel YouTube.

Wedi holiadur am flaenoriaethau hyfforddiant a datblygu staff y rhwydwaith, cynlluniodd MIC gyfres o sesiynau hyffroddiant i ymateb i'w anghenion yn cynnwys cyrsiau cymorth cyntaf, ceisiadau grant ac amddiffyn plant. Er mwyn datblygu'r prosiect WiciMon yn bellach cafwyd sesiynau hyfforddiant i Swyddogion Maes ar sut i gynnal sesiynau golygu Wici. Mae iechyd a lles meddyliol staff y rhwydwaith yn hynod bwysig i MIC a cafwyd cyfres o sesiynau ar feddwlgarwch yn y gweithle gan Canna Consulting ar gyfer Prif Swyddogion a staff y Mentrau.





# EIN GWAITH YN 2019-20

## GRANTIAU GWYLIAU

Yn Ebrill 2019 darparodd Llywodraeth Cymru £50,000 i MIC i weithredu cynllun grant ar gyfer cefnogi gwyliau cymunedol cerddorol Cymraeg / Cymreig yn 2019 – 20. Roedd grantiau hyd at £5,000 ar gael i gynorthwyo sefydliadau a grwpiau lleol dros Gymru gyda'r gwaith o drefnu a chynnal gweithgaredd sy'n cyfrannu at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn gymunedol. Dyma rai o'r ystadegau trawiadol:

- 21 gŵyl yn ymgeisio
- Cyllidwyd 11 gŵyl
- Dros £18,000 yn mynd at artistiaid Cymraeg
- Gwariwyd 10% o'r arian ar farchnata
- Cyfrannodd 220 o wirfoddolwyr
- Mynychodd dros 20,000 o bobl

## CYMRAEG BYD BUSNES

Cynhelir prosiect Cymraeg Byd Busnes am y drydedd flwyddyn bellach gyda 12 swyddog ar draws Cymru ac un cydlynydd cenedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn mae'r rhwydwaith wedi:

- Cefnogi 263 busnes
- Trefnu 22 digwyddiad torfol
- Cynnal Prosiect Peilot gyda'r sector Iechyd Sylfaenol yng nghlystyrau De Sir y Fflint ac Aman/Gwendraeth gyda 11 meddygfa
- Cydweithio â rhwydwaith eang o bartneriaid gwahanol, megis Comisiynydd y Gymraeg, darparwyr lleol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Fforymau Iaith rhanbarthol, Hwb Ffocws lleol a llawer mwy

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd digwyddiad yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy gydag Eluned Morgan a Mark Drakeford i ddathlu 2 flynedd gyntaf y prosiect.

O fis Ebrill 2020 bodola wasanaeth cyfieithu newydd sydd ar gael ar-lein i fusnesau bach. Roedd y busnesau oedd yn gweithio gyda thîm Cymraeg Byd Busnes yn rhan o gyfnod treialu'r gwasanaeth cyfieithu ym misoedd Chwefror a Mawrth 2020. Bydd y gwasanaeth cyfieithu a'r tîm lleol yn gweithredu o dan enw Helo Blod.



# EIN GWAITH YN 2019-20

## PAPURAU BRO

Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i MIC weinyddu grantiau  ar gyfer 52 o bapurau bro Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Er mai gweinyddu grantiau yw pennaf rôl MIC, mae gennym reolaeth ar swm bychan o arian i weithio er budd y rhwydwaith bapurau, a gyda hynny mewn golwg bu cyfathrebu rhyngom â'r papurau a arweiniodd i'r casgliad mai creu gwefan a mewnrwyd fyddai'r werth orau o'r arian hwnnw. Cynigiwyd tendr gan dderbyn cais Gwe Cambrian i greu a dylunio'r wefan.

Ynghyd â hyn, prynwyd 'pop up' ar gyfer y papurau yn unigol er mwyn helpu hyrwyddo'r papur yn lleol. Bu i ni gynnal cyfarfod ar stondin y Mentrau Iaith yn Eisteddfod sir Conwy gyda chriw mawr wedi ymgasglu mewn sgyrsiau difyr. Gorfu i ni ohirio cynhadledd y papurau bro ddiwedd mis Mawrth oherwydd cyfyngiadau Covid-19 gan ail asesu sut y bydd cyfathrebu yn digwydd dros y misoedd canlynol.

## MARCHNATA A HYRWYDDO

Cynhaliwyd sawl ymgyrch farchnata yn ystod y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth o waith y rhwydwaith. Gwnaed cysylltiadau newydd gyda mudiadau eraill megis Cymdeithas Rygbi Cymru a rhoddwyd cefnogaeth i ymgyrchoedd yn ymwneud â'r Gymraeg fel diwrnod Shwmae Su'mae.

Yn ystod y flwyddyn fe drefnodd MIC 17 o gyfweliadau radio a theledu i sôn am waith y Mentrau Iaith. Cyhoeddwyd 34 eitem newyddion am waith y Mentrau ar wefan MIC a chafwyd cyrhaeddiad o dros 500,000 i negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar gyfryngau MIC.

Cynhyrchodd MIC yr holl ddeunyddiau marchnata ar gyfer yr ymgyrchoedd gan gynnwys llyfrynnau 'Haf gyda'r Mentrau Iaith', 'Blas o'n Gwaith' a 'O Bydded i'r Heniaith Barhau' a gafodd ei lansio yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol Eluned Morgan AS.





# EIN GWAITH YN 2019-20

## CYNRYCHIOLI'R MENTRAU IAITH

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynrychioli'r rhwydwaith:

- Cynhadledd a chyfarfodydd Mudiad Dathlu'r Gymraeg
- Pwyllgor Cefnogi Dysgwyr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol
- Grwp Hyrwyddo'r Gymraeg
- Pwyllgor Gwaith Ieuenctid
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
- Cynhadledd NPLD
- Cyfarfod a darlith flynyddol WCVA
- Cynhadledd Gwaith Ieuenctid Cymru
- Gofod 3 - digwyddiad 3ydd sector
- Gŵyl Ein Llais yn y Byd
- Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol
- a mwy...

## GWOBRWYO MENTRAU IAITH

Am y tro cyntaf erioed cafwyd noson wobrwyo mawreddog 'Dathlu'r Gymraeg yn y Gymuned' a oedd yn gyfle i gydnabod gwaith caled a gwerthfawr y Mentrau Iaith dros Gymru. Roedd cyfle i enwebu prosiectau ym mhedair categori dan y themau Datblygu Cymunedol, Technoleg, Digwyddiad a Chydweithio a chyfle i gydnabod eraill yn y categori Gwirfoddolwyr.

Rhoddwyd sylw i brosiectau'r Mentrau mewn cyfweliadau ar Radio Cymru a Prynhawn Da, ar wefannau newyddion a cyhoeddwyd eitem fyw o'r noson ar raglen Heno. Hoffai MIC ddiolch i Darwin Gray a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am noddi'r noson.



# CEFNOGI'R MENTRAU

Bydd 2020 yn cael ei gofio mewn llyfrau hanes fel y flwyddyn digwyddodd Covid19. Mae'n rhyfedd edrych yn ôl ar gyfnod cyn y coronafeirws heb feddwl am y newidiadau anferth ddigwyddodd i waith y Mentrau Iaith cyn diwedd Mawrth 2020. Cyn diwedd y flwyddyn ariannol fe weithiodd MIC yn galed ac yn gyflym i gefnogi'r rhwydwaith Mentrau Iaith gan sicrhau trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i dderbyn grantiau 2020-21, i rannu gwybodaeth am grantiau argyfwng, a threfnu cyfarfodydd rhithiol. Teimlwn fod y cyfnod digynsail hwn wedi atgyfnerthu'r angen am fudiad cefnogol fel MIC i gynorthwyo pan fo'r adegau hyn i gynorthwyo'r rhwydwaith.

Er hyn oll, edrychwn ar 2019-20 fel blwyddyn hynod gynhyrchiol gyda'n hymateb i sawl datblygiad cyffrous fel y grantiau gwyliau, y gwobrau a'r papurau bro - yn ogystal â tharo'n targedau blynyddol eraill - yn ychwanegu pluen i het MIC.

## ADBORTH

"Sesiwn dda iawn, yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol."

"Hyfforddiant perthnasol gydag enghreifftiau effeithiol. Wedi dysgu llawer."

"Sesiwn buddiol dros ben a braf o ran cyfleoedd hawdd i holi a phrocio"

Barn Swyddogion Maes i hyfforddiant

"Eisiau diolch yn fawr iawn i chi am drefnu cynhadledd wych dros y dyddiau diwethaf. Er mor flinedig, cefais lawer iawn allan ohono. Braf oedd cael hel syniadau a barn am gymaint o bethau perthnasol, a chael f'atgoffa nad ydw'i ar ben fy hun – fel sy'n gallu digwydd i brif swyddogion yn aml dwi'n siŵr.
Trefniadau penigamp a lot o waith cynllunio yn amlwg wedi'i wneud."

Barn Prif Swyddog o'r Gynhadledd

"Mi oedd hi'n noson hyfryd ac rydym yn ddiolchgar iawn ein bod wedi cael ein gwahodd yno. Roedd straeon y mentrau yn gwbl ysbrydoledig – rydych yn ffodus iawn i gael staff a gwirfoddolwyr mor ymroddgar."

Barn Beirniad o'r Noson Wobrwyo

Mentrau Iaith Cymru